**Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion, a gynhaliwyd yn Ystafell Teifi, Penmorfa, Ceredigion ddydd Iau, 13 Mehefin, 2019.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Catrin Miles (Cadeirydd), Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol; Philippa Davies (Rhiant-lywodraethwr, Ysgol y Dderi); Gareth Evans (Pennaeth Dros Dro Ysgol Bro Teifi);

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Cheryl Evans (Swyddog Derbyniadau) a Kay Davies (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd)

(14:00 – 15:20)

**1. Ymddiheuriadau:**

Ymddiheurodd Meinir Ebbsworth (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion/Prif Swyddog Addysg), y Cynghorydd Endaf Edwards, (Cadeirydd, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu), Carol Davies (Pennaeth Ysgol Dyffryn Cledlyn), Jane Wyn (Pennaeth Ysgol Bro Pedr), Enid Brophy (Pennaeth Dros Dro Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant) a Peter Leggett (Pennaeth Ysgol Rhydypennau) am na allent fynychu'r cyfarfod.

**2. Trefn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Dymunwyd yn dda i Mrs Meinir Ebbsworth am wellhad llawn a chyflym yn dilyn ei thriniaeth yn yr ysbyty.

**3. Datgelu Buddiannau Personol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2019.**

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2019 fel rhai cywir.

**5. Materion yn codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2019**

6. System heb arian parod – nodwyd bod y system yn Saesneg yn unig. Nododd y contract gwreiddiol y dylai'r system fod yn ddwyieithog ond nid yw'r darparwr wedi newid hyn eto. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n ymchwilio i'r sefyllfa ac yn dod â gwybodaeth i'r cyfarfod nesaf mewn perthynas â chyfnod y contract cyfredol a phryd y mae disgwyl iddo gael ei ail-dendro.

**6. Dogfen Gwybodaeth i Rieni**

Dywedodd y Swyddog Derbyniadau y bydd y ddogfen yn cael ei diweddaru yn yr hydref. Nodwyd bod Ysgol Dyffryn Cledlyn yn y broses o gael ei mabwysiadu fel ysgol wirfoddol a reolir. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau. Cynigiwyd y dylid cynnwys nodyn esboniadol yn y ddogfen Gwybodaeth i Rieni.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â ffurflenni cais ysgolion. Cytunwyd i ddod â drafftiau i'r cyfarfod nesaf i'w hystyried. Roedd y pwyntiau i'w hystyried yn cynnwys gwybodaeth ynghylch o ble mae'r trosglwyddiad yn dod; categori iaith ysgolion blaenorol; arwydd ar frig y ffurflen ynghylch meithrinfa, dosbarth derbyn ac ati; rhestr o ysgolion blaenorol a dyddiadau a bylchau mewn addysg. Nodwyd bod yr

holiadur wedi'i lunio ar y cyd ag awdurdodau eraill; fodd bynnag, credir y byddai gwrthwynebiadau i unrhyw welliannau arfaethedig yn annhebygol.

Mae'r Ddogfen Gwybodaeth i Rieni ar gael ar-lein ac mae copïau ar gael os oes angen.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**7. Polisi Derbyn 2020-2021**

Nodwyd bod y Cabinet wedi cymeradwyo Polisi Derbyn 2020-21 ar 9 Ebrill 2019. Mae'r drafft ar gyfer 2021/22 i'w gyflwyno yn y cyfarfod nesaf yn yr hydref.

Cododd Aelod o'r Fforwm bryderon ynghylch y polisi mewn perthynas â cheisiadau gan ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg a nodwyd yr angen i ganolfannau Cymraeg wella sgiliau dysgwyr Cymraeg a throchi iaith Gymraeg i siaradwyr di-Gymraeg.

Nodwyd yr heriau a'r pwysau i ysgolion a'u cyllid i gefnogi'r rheini sydd ag ychydig neu ddim Cymraeg.

Nodwyd nad yw adfer canolfannau iaith wedi'i gynnwys yn strategaeth gyfredol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Cytunwyd i gyfeirio'r pryder at Meinir Ebbsworth (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion/Prif Swyddog Addysg), Menna Beaufort Jones a Silyn Roberts o'r Gwasanaeth Ysgolion er mwyn iddynt gyfeirio'n ôl at y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bryderon mewn perthynas â nifer lleoedd a'r angen i archwilio maint yr angen yn y sir.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**8. Niferoedd Blwyddyn 7 ar gyfer Ysgolion Uwchradd – Medi 2019.**

Dosbarthwyd y rhestr o niferoedd blwyddyn ysgol 7 ar gyfer Medi 2019.
Dywedodd y Swyddog Derbyniadau fod ffigurau wedi'u diweddaru yn nodi nad yw 5 disgybl eto wedi gwneud cais am yr ysgolion o'u dewis.

Nodwyd y bu gostyngiad bach yn y niferoedd yn Ysgol Bro Teifi ac Aberteifi gan fod rhai disgyblion wedi dewis mynychu ysgolion yn Sir Gaerfyrddin neu Sir Benfro. Nodwyd sgil-effeithiau posibl i Ysgol Penglais oherwydd gostyngiad sylweddol yn niferoedd blwyddyn 6 ar gyfer 2020 a hefyd ar gyfer 2021.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**9. Niferoedd Blwyddyn Dosbarth Derbyn Medi 2019**

Dywedwyd bod gormod o ddisgyblion mewn rhai ysgolion. Mae'r broses apelio wedi caniatáu i rai ysgolion fynd y tu hwnt i'r niferoedd y derbyniant.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.

**10. Apeliadau Derbyn Canol Blwyddyn 2018-19**

Nodwyd gwybodaeth mewn perthynas ag Apeliadau Derbyn Canol Blwyddyn 2018 – 19. Nodwyd bod tair apêl wedi'u cynnal ers y cyfarfod diwethaf gyda dwy arall i'w cynnal yn ystod yr wythnosau nesaf.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth.

**11. Unrhyw fater arall**

Nid oedd unrhyw faterion eraill.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Mawrth, 15 Hydref 2019 am 2pm, Ystafell Ystwyth, Penmorfa.